**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**18 Mai 2016**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# EITEM AR GYFER Y PWYLLGOR CYNLLUNIO
# CYNLLUN DIRPRWYO WEDI'I DDIWEDDARU - FERSIWN 7

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer Cynllun Dirprwyo diwygiedig.

## 2. CEFNDIR

Y Cynllun Dirprwyo yw'r ddogfen sy'n nodi amrywiaeth o faterion i ymdrin â nhw ar lefel swyddogion heb awdurdodiad ffurfiol gan Aelodau drwy'r Pwyllgor Cynllunio, a'r rhai sy'n gorfod cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am gynnig / penderfyniad.

Mae'r Cynllun Dirprwyo yn cael ei adolygu unwaith y flwyddyn.

Y sbardun ar gyfer yr adolygiad hwn oedd mewnbwn gan yr Aelodau, y newidiadau a gyflwynwyd yng Ngorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygu Llywodraeth Cymru ym Mawrth 2016, a chyflwyno prosesau ymgeisio newydd.

Felly, mae swyddogion wedi ceisio symleiddio strwythur y ddogfen i egluro'r mathau o geisiadau a materion y gall Swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio eu trin. Mae'n cynnwys rhestr o fathau o geisiadau, hysbysiadau, ymgynghoriadau, ymholiadau cyn gwneud cais a materion gorfodaeth sy'n cael eu trin gan yr Adain Rheoli Datblygu.

Mae'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig wedi'i ddiweddaru yn Nogfen 1, gyda'r adroddiad hwn. Mae'r fersiwn gyfredol yn amgaeedig fel Dogfen 2.

Bydd swyddogion yn mynd â'r Aelodau drwy'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig a byddant yn hapus i gymryd cwestiynau.

## 3. ARGYMHELLIAD

Bod Aelodau'n cymeradwyo'r Cynllun Dirprwyo diwygiedig yn Nogfen1.

**GRAHAM BOASE** **PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**